

Adroddiad ar gyfer	Pwyllgor Archwilio
Dyddiad	10 Medi 2018
Swyddog Arweiniol	Ken Finch, Trysorlydd
Swyddog Cyswllt	Ken Finch 01745 535286
Pwnc	Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Un o ofynion Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf yw bod Dangosyddion Darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo. Hefyd, dan God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, rhaid adrodd i'r Aelodau ynghylch unrhyw newidiadau i fenthyciadau tymor hir a newidiadau i'r parffion i gcontract sydd gan yr Awdurdod.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Cafodd y Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2018-2019 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 19 Mawrth 2018. Ers eu cymeradwyo, mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2018-2019 ac ymlaen wedi newid.

ARGYMHELLIAD

- 3 Bod yr Aelodau'n argymhell i'r Awdurdod Tân ac Achub eu bod yn cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig a nodir yn Atodiad A.

CEFNDIR

- 4 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar y strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisiâu, ac o wneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail ei ganfyddiadau.

GWYBODAETH

Dangosyddion Darbodus 2018-2019

- 5 Mae Dangosyddion Darbodus 2018-2019 wedi newid oherwydd bod y gwariant gwirioneddol ar y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017-2018 yn llai na'r alldro a amcangyfrifwyd. Isod, rhoddir esboniad o'r hyn y mae pob dangosydd yn ei gynrychioli:

- Mae'r Gofyniad Cyllid Cyfalaf yn mesur y ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr Awdurdod;
 - Mae'r Ffin Weithredol yn mesur y ddyled allanol bosibl fwyaf i ganiatáu uchelfannau ac iselfannau yn y llifoedd arian;
 - Mae Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif y swm mwyaf y gallai'r Awdurdod ei fenthycu ar sail asesiad o'r gofynion gweithredol a'r risgiau allanol.
- 6 Mae'r tri dangosydd allweddol hyn wedi newid ar gyfer 2018-2019. Mae'r gwariant cyfalaf wedi cynyddu fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol, a hynny oherwydd nad oedd rhai cynlluniau wedi cael eu cwblhau'n llwyr yn 2017-2018 a'u bod wedi'u cario drosodd i 2018-2019.
- 7 Mae'r newid i'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw hefyd wedi cael effaith ar y dangosyddion. Yn benodol, mae 'cymhareb y costau ariannu a'r llif refeniw net' wedi lleihau gan fod y ffi ar refeniw am wariant cyfalaf ar dir ac adeiladu wedi newid o ad-dalu 4% o'r balans sy'n weddill bob blwyddyn i ad-dalu dros oes yr ased.
- 8 Mae atodiad A yn rhestru'r dangosyddion a adroddwyd ym mis Mawrth a'r dangosyddion diwygiedig.

Benthyciadau Newydd

- 9 Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus eleni, a phan mae benthyciadau EIP a Blwydd-dal yn aeddfedu, cafwyd benthyciadau tymor byr yn eu lle. Mae gan yr Awdurdod £18,000,000 o fenthyciadau tymor byr a gymerwyd gydag Awdurdodau Lleol eraill. Bu'n rhaid cynyddu swm y benthyciadau tymor hir ar gyfer llif arian parod. Ond o hyn ymlaen, bydd hyn yn gostwng oherwydd bydd y Grant Atodol Pensiynau yn cyrraedd ar 16 Awst 2018, felly ni fydd threfnir benthyciadau newydd yn lle rhai sy'n aeddfedu, hyd nes y bydd y cyllid dros ben wedi cael ei ddefnyddio. Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo cyfanswm o 55% i fod yn derfyn uchaf i'r portffolio benthyciadau ar gyfer swm benthyciadau sy'n aeddfedu cyn pen 12 mis. Y sefyllfa bresennol yw bod 54% o'r benthyciadau'n aeddfedu cyn pen 12 mis. Ar hyn o bryd, mae benthyciadau tymor byr yn cael eu hadnewyddu pan fyddant yn aeddfedu, a hynny gydag Awdurdodau Lleol eraill yn dibynnu ar y cyfraddau llog sydd ar gael ar y pryd. Ar hyn o bryd, nid oes digon o hylifedd yn y farchnad i adnewyddu benthyciadau sy'n aeddfedu, neu gael rhai yn eu lle, wrth i Awdurdodau Lleol edrych y tu allan i'r sector bancio i gael arian dros ben yn y tymor byr.

Parhion i Gontract a Buddsoddiadau

- 10 Roedd y strategaeth fuddsoddi ar gyfer 2017/18 a gymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Mawrth yn cynnwys cymeradwyo'r meini prawf a ganlyn ar gyfer parhion i gontract.
- (1) Swyddfa Rheoli Dyledion yn y Trysorlys – terfyn £5 miliwn
 - (2) Awdurdodau Lleol (ac eithrio cap ar gyfraddau) – terfyn £2 filiwn
 - (3) Mae gan holl fanciau'r DU ac Iwerddon, a'u his-gwmnïau, sgoriau da (Fitch neu gyfwerth). Dyma'r diffiniad ar hyn o bryd:

Tymor Byr	F1
Tymor Hir	A
Sgôr Hyfywedd	Bbb

Terfyn- £5m

Os yw sgoriau banciau'n gostwng yn is na'r rhai sydd yn y tabl uchod, byddant yn cael eu defnyddio os yw adneuron mawr yn cael eu sicrhau gan warant llywodraeth, ac os yw'r adneuron yn gostwng o fewn telerau'r warant.

- (4) Mae £2 filiwn o derfyn benthycu gan Gymdeithasau Adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio).
 - (5) Mae £2 filiwn o derfyn, a 9 mis o gyfryngiad amser ar y mwyaf, gan Gymdeithasau Adeiladu sydd heb sgôr ond sydd ag asedau gwerth £1 biliwn neu fwy
- 11 Y prif egwyddor sy'n llywodraethu meini prawf yr Awdurdod ar gyfer buddsoddi yw diogelwch ei fuddsoddiadau. Bu lleihad yn yr ansicrwydd mewn perthynas â pha mor deilwng i gael credyd yw parhion i gontract, ac mae ein hymgynghorwyr trysorlys nawr yn argymhell y dylai'r terfyn amser ar gyfer buddsoddiadau fod yn 6 mis o leiaf. Ond mae unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio yn lle benthyciadau y byddai eu angen i ariannu'r rhaglen gyfalaf, felly ar gyfer llif arian y mae unrhyw fuddsoddiadau'n cael eu cadw.
- 12 Mae'r arian dros ben ar gyfer buddsoddiadau sydd gan yr Awdurdod ar 13 Awst 2018 yn is na'r hyn sydd fel arfer yn cael ei ddal gan yr Awdurdod oherwydd na fydd y Grant Atodol Blyneddol ar gyfer Pensiynau yn cyrraedd tan 16 Awst 2018. Mae'r arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn dau gyfrif galw, gyda Barclays a'r Bank of Scotland, ac mae hynny'n caniatáu mynediad at arian ar unwaith. Isod, rhoddir manylion y buddsoddiadau ar 13 Awst.

Prifswm £	Cyfradd %	Dyddiad y Benthyciad	Cyfnod	Benthyciwr
10,000	0.40	Amherthnasol	Galw	Bank of Scotland
40,000	0.30	Amherthnasol	Galw	Barclays

Cynnydd yn y Cyfraddau Llog

- 13 Efallai y bydd yr aelodau'n ymwybodol fod Cyfradd Sylfaenol Banc Lloegr wedi codi o 0.5% i 0.75% ar 2 Awst 2018. Mae ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys, sef Arlingclose, yn rhagweld rhagor o gynnydd yn y cyfraddau llog yn Rhagfyr 2018 a Mehefin 2019 pryd y rhagwelir y bydd y gyfradd sylfaenol yn sefydlogi ar 1.25%. Gan fod gan yr Awdurdod nifer o fenthyciadau tymor byr, disgwylir y bydd y cyfraddau'n codi fymryn yn unol â'r gyfradd sylfaenol uwch. Fodd bynnag, pan gafodd y gyllideb eu gosod ar gyfer taliadau llog cafodd cynnydd yn y gyfradd sylfaenol ei gynnwys yn yr amcangyfrifon i sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gael i dalu'r costau ychwanegol.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Sicrhau bod asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn cael eu prynu mewn modd doeth, fforddiadwy a chynaliadwy. Sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol.
Cyllideb	Gosodir y gyllideb bob blwyddyn ar gyfer cyllido cyfalaf, a hynny'n unol ag adroddiad y Trysorlys.
Cyfreithiol	Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi ym mharagraff 18.
Staffio	Dim
Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Dim
Risgiau	Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael eu buddsoddi fethu gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddiwyd. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lleihau'r risg hwn.

DANGOSYDDION DARBODUS

		2018/19 £	2019/20 £	2020/21 £
1	Gwariant Cyfalaf Dangosydd Gwreiddiol Dangosydd Newydd	4,949,000 5,889,652	4,890,000 4,890,000	3,959,000 3,959,000
2	Gofyniad Cyllido Cyfalaf Dangosydd Gwreiddiol Dangosydd Newydd	37,988,000 37,666,346	40,011,000 39,800,000	40,938,000 40,839,000
3	Terfyn Awdurdodedig Dangosydd Gwreiddiol Dangosydd Newydd	39,988,000 39,666,000	42,011,000 41,800,000	42,938,000 42,839,000
4	Ffin Weithredol Dangosydd Gwreiddiol Dangosydd Newydd	37,988,000 37,666,346	40,011,000 39,800,000	40,938,000 40,839,000
5	Cymhareb Costau Cyllido a Net Llif Refeniw Dangosydd Gwreiddiol Dangosydd Newydd	10.15% 8.03%	10.94% 9.54%	11.40% 9.98%
6	Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol Dangosydd Gwreiddiol Dangosydd Newydd	29,000 44,000	634,000 951,000	1,116,000 1,390,000